# Gweithredu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang

Ymgynghoriad ar reoliadau dynodi

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 13 Medi 2018
Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 15 Hydref 2018

# Gair am y ddogfen hon

Ym mis Mawrth 2018, fe wnaeth y Llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (“USO”) band eang, sy’n rhoi hawl i gartrefi a busnesau cymwys ofyn am gysylltiad band eang digonol.

Mae Ofcom nawr yn gyfrifol am weithredu'r USO. Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer y broses o ddynodi Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol. Byddwn yn ystyried beth yw’r agweddau ehangach o ran USO, gan gynnwys adnabod Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol a’r rhwymedigaethau rheoleiddio a fydd yn berthnasol iddynt, mewn ymgynghoriad arall yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

# Cynnwys

## Adran

1. Crynodeb 1-3

# 1. Crynodeb

## Cefndir

1.1 Ym mis Mawrth 2018, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol y Gorchymyn Cyfathrebiadau Electronig (Gwasanaeth Cyffredinol) (Band Eang) 2018 (y "Gorchymyn") a oedd yn nodi'r gwasanaethau a'r cysylltiadau band eang hynny y mae'n rhaid iddynt fod ar gael i bob defnyddiwr cymwys yn y Deyrnas Unedig ("yr USO"). Mae'r Gorchymyn yn nodi manylion technegol gofynnol ar gyfer y gwasanaethau a'r cysylltiadau band eang y mae'n rhaid eu darparu. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf cymhwysedd sy'n rhestru'r eiddo hynny a fydd yn cael budd o'r USO.

1.2 O ran y manylion, mae'r Gorchymyn yn datgan: "rhaid darparu gwasanaethau a chysylltiadau band eang fforddiadwy ledled y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys yr holl nodweddion canlynol-

a) cyflymder cysoni llwytho i lawr o 10 megabit yr eiliad o leiaf;

b) cyflymder cysoni llwytho i fyny o 1 megabit yr eiliad o leiaf;

c) cymhareb gystadlu o ddim mwy na 50:1;

d) oedi sy'n galluogi'r defnyddiwr i wneud a derbyn galwadau llais dros y cysylltiad yn effeithiol;

e) y gallu i ganiatáu defnyddio o leiaf 100 gigabeit o ddata bob mis."

1.3 Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y bydd defnyddwyr a busnesau yn gymwys am wasanaeth neu gysylltiad band eang sy'n bodloni'r manylion hynny;

a) pan na fydd cysylltiad band eang sy'n bodloni manylion yr USO ar gael yn barod;

b) pan na fydd cysylltiad o'r fath yn cael ei ddarparu gan gynllun cyflwyno sy'n cael arian cyhoeddus yn y flwyddyn nesaf;

c) pan fydd y cysylltiad yn costio llai na £3,400. Pan fydd y costau'n uwch na'r swm yma, bydd defnyddwyr a busnesau yn gallu cael y gwasanaeth os ydynt yn talu unrhyw gostau dros £3,400.

1.4 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf"), Ofcom sy'n gyfrifol am roi darpariaethau'r Gorchymyn ar waith drwy ddynodi darparwyr penodol ("Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol") i fod yn gyfrifol am ddarparu'r USO a gosod rhwymedigaethau rheoleiddio arnynt, ar ffurf amodau gwasanaeth cyffredinol.

## Ymgynghoriad Mehefin

1.5 Ar 19 Mehefin 2018, fe wnaethom gyhoeddi ein 'Cais am fynegi diddordeb mewn bod yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang' ("Dogfen Mehefin 2018").[1] Fe wnaethom nodi'r fframwaith rheoleiddio berthnasol ac egluro, gan fod yr USO yn fesur sy'n ceisio gwasanaethu buddiannau defnyddwyr, mai dyma yw ein prif amcanion o ran cyflawni ein dyletswyddau o dan y Ddeddf:

- darparu'r USO cyn gynted â phosibl, fel y gall defnyddwyr elwa cyn gynted â phosibl;
- sicrhau bod unrhyw ddarparwr dynodedig yn gallu darparu gwasanaethau sy'n cwrdd â manylebau'r USO; a
- sicrhau bod y gost o ddarparu, ac felly yr effaith ar y diwydiant a defnyddwyr, mor isel â phosibl.

1.6 Roedd Dogfen Mehefin 2018 yn amlinellu'r penderfyniadau y bydd gofyn i Ofcom eu gwneud o dan y fframwaith statudol, ac yn nodi ein safbwyntiau cychwynnol ynghylch y dull o ddynodi Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol a'r rhwymedigaethau rheoleiddio y gellid eu clymu wrth ddynodiad.

1.7 Wrth ystyried y dull o ddynodi, fe wnaethom nodi, ar sail trafodaethau â darparwyr, a strwythur y seilwaith rhwydwaith band eang presennol, nad oedd yn ymddangos bod digon o ddiddordeb gan ddarparwyr mewn darparu'r USO yn genedlaethol, nac yn yr un ardaloedd daearyddol, i gynnal cystadleuaeth effeithiol. Yn hytrach, fe wnaethom awgrymu y byddai dull uniongyrchol o ddynodi, lle byddem yn dewis ac yn dynodi darparwr ar sail canlyniad ein dadansoddiad gwrthrychol a thryloyw ein hunain, yn golygu y byddai modd rhoi'r USO ar waith yn gyflym, gan sicrhau bod y broses ar agor i bob darparwr sydd â diddordeb ar yr un pryd.  Felly, fe wnaethom wahodd cwmnïau i anfon datganiadau o ddiddordeb mewn cael eu dynodi i fod yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol, naill ai ar lefel genedlaethol neu ar lefel is.

1.8 Mewn ymateb i Ddogfen Mehefin 2018, daeth datganiadau o ddiddordeb i law oddi wrth:

- Broadway Partners
- BT
- Hyperoptic
- KCOM
- Quickline Communications

1.9 Hefyd, cawsom ymateb gan chwe chwmni arall i ddogfen mis Mehefin, fel y gwelir yn Adran 2 isod.

## Cynigion Ofcom

1.10 Yn y ddogfen hon, rydym yn nodi ein dadansoddiad o'r ymatebion i Ddogfen Mehefin 2018, i'r graddau sy'n berthnasol i'r broses a ddefnyddir i ddynodi darparwyr Gwasanaeth

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0013/115042/implementing-broadband-uso.pdf

Cyffredinol. Yna, rydym yn nodi ein rhesymau dros gynnig symud ymlaen â dull dynodi uniongyrchol. Rydym yn ystyried mai'r dull hwn yw'r mwyaf effeithiol er mwyn cyflawni ein prif amcanion.

1.11 Bydd materion eraill sy'n cael sylw yn Nogfen Mehefin 2018, gan gynnwys adnabod Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol a'r rhwymedigaethau rheoleiddio a fydd yn berthnasol iddynt, yn cael eu hystyried yn fanwl mewn ymgynghoriad arall yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

A1.1 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Jack Gaches ar 020 783 4254, neu dros yr e-bost i jack.gaches@ofcom.org.uk.